NSPCC







# diwrnod plentyndod

## Canllawiau i wirfoddolwyr

Eich canllawiau ar gyfer gwirfoddoli ar Ddiwrnod Plentyndod



2024

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO

# Diolch

# am chwarae eich rhan

**Diwrnod Plentyndod yw pan fyddwn ni'n sefyll gyda'n gilydd dros blant, a sefyll yn erbyn camdriniaeth. Mae'r gallu i atal camdriniaeth ar gael mewn cymunedau ledled y DU ac Ynysoedd y Sianel.**

Diwrnod Plentyndod 2024 fydd digwyddiad codi arian mwyaf erioed yr NSPCC, gyda chasgliadau'n digwydd ar draws y DU ac Ynysoedd y Sianel.

Mae'r casgliadau hyn yn fwy na chodi arian yn unig, maen nhw'n helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith gyda phlant. Drwy ymuno â chasgliad rydych chi'n helpu i gadw plant yn ddiogel.

P'un ai dyma'r tro cyntaf i chi gasglu arian neu os ydych chi'n un o'n gwirfoddolwyr ymroddedig presennol, bydd y canllawiau hyn yn dweud popeth y mae angen i chi ei wybod.

**Gyda'n gilydd, gallwn ni gadw plant yn ddiogel.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Ddiwrnod Plentyndod cysylltwch â ni drwy anfon neges e-bost i **CHDVolunteering@nspcc.org.uk**









# Gair bach amdanom ni

## Pwy yw'r NSPCC?

**Yr NSPCC yw prif elusen blant y DU sy'n brwydro i roi terfyn ar gam-drin plant.** Mae modd atal cam-drin plant – nid yw'n anochel. Dyna pam mae popeth a wnawn yn amddiffyn plant heddiw, yn atal cam drin yfory ac yn trawsnewid cymdeithas i wneud cam-drin plant yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol.

## Pa wasanaethau y mae'r NSPCC yn eu rhedeg?

**I sicrhau bod plant yn gallu byw bywyd diogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod, rydyn ni'n rhedeg nifer o wasanaethau i ddiogelu a chefnogi plant.**

- **Childline** – ein gwasanaeth 24/7 rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc i gael cymorth a chyngor.
- **Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel** – ein gwasanaeth i ysgolion sy'n dysgu plant 5-11 oed am gamdriniaeth a sut i roi gwybod os ydyn nhw'n poeni.
- **Ein Llinell Gymorth** – gwasanaeth i unrhyw oedolyn sydd â phryderon am blentyn.

Mae gennym hefyd hybiau lleol lle rydyn ni'n darparu gwasanaethau uniongyrchol i blant a theuluoedd.



**Daw tua 90% o'n hincwm gan y rheini sy'n dewis rhoi i ni. Ac mae tua 80c ym mhob £1 a wariwn yn mynd yn uniongyrchol i helpu plant a phobl ifanc.**

## Faint o blant rydyn ni'n eu helpu?

**Rhwng 2016 a 2021, rydyn ni wedi helpu i sicrhau bod 6.6 miliwn o blant yn fwy diogel rhag camdriniaeth.** Yn 2022/23 fe wnaethom gyrraedd dros 1.2 miliwn o blant mewn dros 5,300 o ysgolion drwy ein gwasanaeth Cofia ddweud. Cadwa'n ddiogel. Cafodd bron i 200,000 o sesiynau cwnsela Childline eu cynnal gyda phlant, ac ymatebodd Llinell Gymorth yr NSPCC i dros 59,000 o alwadau gan bobl yn poeni am les plentyn.

## Beth ddylwn i ei wneud os oes gennyf bryderon am blentyn?

Os ydych chi'n poeni am ddiogelwch neu les plentyn, neu'n rhiant neu'n ofalwr yn chwilio am gyngor, gallwch gysylltu â **llinell gymorth yr NSPCC ar 0808 800 5000 neu anfon e-bost i help@nspcc.org.uk.** Pe bai aelod o'r cyhoedd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw beth tra ydych chi'n casglu, neu'n gofyn sut gallan nhw roi gwybod am eu pryderon am blentyn, rhowch un o'n cardiau Llinell Gymorth iddyn nhw. Byddwch yn cael y rhain ar y diwrnod ynghyd â'ch offer casglu.

**Os yw plentyn eisiau cysylltu â Childline, gallan nhw ffonio 0800 1111 neu fynd i childline.org.uk**

**£4**

yn gallu talu am **ateb galwad ffôn i Childline - galwad sy'n newid bywyd.**

**£22**

yn gallu talu am **wasanaeth ymarferydd llinell gymorth am awr,** gan ddarparu cymorth i oedolion sy'n poeni am les plentyn.

**£180**

yn gallu talu am **wasanaeth ymarferydd hyfforddedig am un diwrnod,** gan helpu plant i ddod yn ôl ar y trywydd iawn ar ôl cael eu cam-drin.

# Cyn i chi gasglu arian

## Ymuno â'r grŵp Facebook

Cyfle i gyfarfod pobl eraill sy'n cymryd rhan, gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych a chael diweddariadau am wybodaeth bwysig. Chwiliwch ar Facebook am 'Tîm Gwirfoddoli ar Ddiwrnod Plentyndod yr NSPCC' a gofynnwch am gael ymuno!

## Ni allaf gasglu arian mwyach. Beth ddylwn i ei wneud?

Os nad ydych chi'n gallu casglu ar ein rhan, beth bynnag yw'r rheswm, rydyn ni'n deall yn llwyr. I ganslo neu newid eich casgliad, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

1. Cliciwch ar y ddolen 'Rheoli fy nghofrestriad' (Manage my registration) yn yr e-bost cadarnhau a gawsoch pan wnaethoch chi gofrestru am y tro cyntaf.
2. Bydd hyn yn dod â chi drwodd i'ch ffurflen gofrestru. O'r fan hon gallwch ganslo eich casgliad.
3. Os ydych chi am ail-drefnu ar gyfer casgliad, lleoliad neu gyfnod casglu gwahanol llenwch ffurflen gofrestru newydd.

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau wrth newid eich cyfnod, cysylltwch â ni yn **CHDVolunteering@nspcc.org.uk**




## Rhannu'r neges

Po fwyaf o bobl sy'n cymryd rhan yn y casgliadau ar Ddiwrnod Plentyndod, y mwyaf o blant y gallwn ni eu helpu. Helpwch ni i ledaenu'r neges drwy rannu beth rydych chi'n ei wneud gan ddefnyddio **yr asedau ar ein tudalen adnoddau.**

Wrth rannu ar y cyfryngau cymdeithasol, cofiwch ddefnyddio'r hashnod **#DiwrnodPlentyndod.**

**Cliciwch yma** i ddarllen ein rhestr lawn o Gwestiynau Cyffredin.



# Awgrymiadau defnyddiol er mwyn sicrhau casgliad llwyddiannus

### Ar ôl cyrraedd

Ceisiwch gyrraedd 15 munud cyn mae eich cyfnod casglu i fod i ddechrau. Ar ôl cyrraedd, byddwch yn cwrdd â'ch arweinydd casgliad yn eich man cychwyn, yna'n mewngofnodi ac yn rhoi eich manylion ar eich cerdyn awdurdod i gasglwyr. Bydd yr arweinydd casgliad yn darparu eich crys-t NSPCC a phopeth sydd arnoch ei angen.

### Dealltwriaeth dda o'r NSPCC

Mae'n dda gwybod ychydig am ein gwaith gyda phlant, er mwyn i chi deimlo'n gyfforddus yn siarad am yr NSPCC. Ceisiwch gofio rhai o'r ystadegau yn y canllaw hwn ac os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, ewch i **nspcc.org.uk**

### Bod yn groesawgar

Gwenwch, gwnewch gyswllt llygad a chyfarch pobl sy'n mynd heibio drwy ddweud "helo", "sut ydych chi?" neu "helo, ydych chi wedi clywed am Ddiwrnod Plentyndod?"

Mae wyneb cyfeillgar yn gwneud gwahaniaeth mawr, ac os ydy pobl yn stopio i roi neu beidio, byddwch wedi gwneud argraff gadarnhaol drwy fod yn agos-atoch a chwrtais. Os ydych chi'n cael unrhyw ymatebion negyddol, ceisiwch beidio â chymryd y rhain yn bersonol a diolch i'r person am ei amser.




### Bod yn barod

Gobeithio y bydd yr haul yn tywynnu, ond peidiwch ag anghofio dod â dillad sy'n dal dŵr rhag ofn. Os bydd hi'n bwrw glaw, dewch o hyd i rywle cysgodol i gasglu. A dewch â bag bach y gallwch ei wisgo i gadw eich eiddo personol.

### Casglu gyda'n gilydd

Mae arnom angen o leiaf dau wirfoddolwr i bob casgliad, felly beth am gael fwy o hwyl drwy ymuno ag un o'ch ffrindiau, cydweithwyr neu aelodau o'r teulu?

**Rhannwch y ddolen er mwyn iddyn nhw allu cofrestru hefyd! nspcc.org.uk/childhood-day/volunteer**

### Pryd ydw i'n cael gwybod faint o arian a gasglwyd pan oeddwn i'n cymryd rhan?

Unwaith y bydd y rhoddion o bob casgliad wedi cael eu cyfrif, a'r cyfanswm wedi'i gyfrifo, byddwch yn cael e-bost yn rhoi gwybod i chi faint a gasglwyd yn ystod eich casgliad chi, ac o gasgliadau Diwrnod Plentyndod yn genedlaethol.



# Mwy o awgrymiadau defnyddiol er mwyn sicrhau casgliad llwyddiannus

### Dod â diod
Mae'n bwysig iawn eich bod yn yfed digon, yn enwedig os yw'n ddiwrnod poeth.

### Bod yn weladwy
Byddwch yn sefyll allan yn gwisgo crys-t / sash yr NSPCC. A gwnewch yn siŵr eich bod yn gwisgo eich cerdyn awdurdod i gasglwyr wrth gasglu. Peidiwch ag ysgwyd eich bwced. Mae'n gallu bod yn demtasiwn i wneud hynny, ond ni fydd pawb yn ei werthfawrogi.

### Chwilio am le da i sefyll
Chwiliwch am rywle prysur, ond cofiwch beidio â rhwystro unrhyw allanfeydd na sefyll yn ffordd pobl.

### Bod yn ddiogel
Ar ôl i chi orffen casglu, neu os ydych chi neu eich cyd-gasglwr angen gadael, bydd angen i'r ddau ohonoch fynd a'ch bwcedi/dyfais talu digyswllt yn ôl i'ch arweinydd casglu. Os, ac mae hyn yn annhebygol, bydd rhywun yn ceisio dwyn eich bwced, gadewch iddo fynd. Eich diogelwch chi sy'n bwysig.

**Cofiwch**

Rydych chi'n gwneud gwahaniaeth go iawn drwy chwarae eich rhan yn ein Diwrnod Plentyndod, a bydd bob punt rydych chi'n ei chodi yn helpu i newid bywydau plant.

Mae plentyn yn cysylltu â Childline bob 45 eiliad, a heboch chi, ni fyddwn yn gallu eu helpu nhw.



**"Roedd yn ddiwrnod hyfryd yn cwrdd â phobl newydd, ac mae'n wych clywed gan y cyhoedd am y ffyrdd y mae'r NSPCC & Childline wedi'u eu helpu yn y gorffennol"**

Gwirfoddolwr Diwrnod Plentyndod, Newcastle.



# Rhannwch eich lluniau

**Byddem wrth ein bodd yn gweld lluniau ohonoch chi'n casglu ar Ddiwrnod Plentyndod. Gallwch chi rannu eich lluniau drwy:**

1. Eu postio yn ein **grŵp Facebook** Diwrnod Plentyndod

2. Defnyddio'r hashnod **#Diwrnod Plentyndod** wrth eu postio ar y cyfryngau cymdeithasol

3. Eu hanfon atom yn **CHDVolunteering@nspcc.org.uk**


*Drwy anfon eich lluniau atom, rydych yn cytuno iddynt gael eu defnyddio yn y dyfodol mewn deunyddiau hyrwyddo ar gyfer Diwrnod Plentyndod. Gwnewch yn siŵr hefyd bod unrhyw un yn y lluniau yn hapus iddyn nhw gael eu rhannu.*

## Sut arall alla i gefnogi'r NSPCC?

Byddem wrth ein bodd pe baech yn gwirfoddoli gyda ni eto. Gallai hyn fod drwy gasglu arian, cymryd rhan mewn digwyddiad codi arian, ymuno â grŵp casglu arian neu wirfoddoli yn ein gwasanaethau – er enghraifft ar gyfer Childline.

Byddwn yn cysylltu â chi eto ar ôl eich casgliad, ond os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi gymryd rhan yn y cyfamser, cysylltwch â **CHDVolunteering@nspcc.org.uk**





NSPCC

# Diolch

## am chwarae eich rhan yn ein

# diwrnod plentyndod

gweithio gyda'n gilydd

codi arian

amddiffyn plant

**Am fwy o wybodaeth**

Chwiliwch am Ddiwrnod Plentyndod

Dydd Gwener 7 Mehefin

Cofrestrwyd gyda'r FR FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

**MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO**

©NSPCC 2024. Rhifau cofrestru'r elusen yng Nghymru a Lloegr 216401, Alban SC037717 a Jersey 384. Modelau a gwirfoddolwyr yw'r plant ac oedolion yn y lluniau. Mae ymarferydd NSPCC yn Lisa Fleming. Ffotograffau gan Fiona Milne, Pinar Çelik Chippan, Adrian James White, Harry George Hall, Tom Hull, Misty Morning, Sasha Ray Art & Photography, UGC a Audra Barabas. J20230168.